**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 22 Mawrth 2023 am 2.30 pm**

**Yn Bresennol**: Mike Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|
| M B Lewis | L G Thomas |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| Michaela Jones | Mark Rees |
| Janet Pardue-Wood | Margaret Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Rabaiotti

---

## 45 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 46 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2023, 17 Chwefror 2023 a 2 Mawrth 2023 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

## 47 Dyletswydd Arweinwyr y Grwpiau.

Fel rhan o'r dyletswyddau newydd ar gyfer Arweinwyr Grŵp fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cytunodd y Pwyllgor Safonau i gwrdd ag Arweinwyr Grŵp gwleidyddol i drafod sut y maent yn cynnal safonau uchel o ymddygiad o fewn eu grŵp.

Gofynnwyd i Arweinwyr Grŵp gyflwyno templed wedi'i gwblhau i'r Pwyllgor Safonau cyn y trafodaethau (gweler Atodiad A).

Yn ogystal â’r templedi gorffenedig, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynghorwyr Lyndon Jones (Ceidwadwyr) a Peter May (Uplands) i’r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 22 Mawrth 2023.

Darparodd y Cynghorwyr Jones a Holley yr wybodaeth ategol ganlynol yn ystod trafodaethau:

<u>Y Cynghorydd Lyndon Jones</u>

Dywedodd y Cynghorydd Jones fod gan ei grŵp berthynas dda iawn gyda'r grwpiau gwleidyddol eraill a Chynghorwyr yn Abertawe.  Roedd yn disgwyl i Gynghorwyr drin eraill â pharch - yn yr un ffordd ag y byddech chi'n disgwyl cael eich trin gan eraill. Roedd bob amser yn awyddus i ddiolch i swyddogion am y gwaith caled a wnaed.

- Hyfforddiant

Teimlai'r Cynghorydd Jones fod y rhaglen hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer Cynghorwyr yn dda iawn.  Yn ogystal, roedd y ffordd y gweithredodd Abertawe ei phroses graffu o safon aur.

Roedd wedi atgoffa ei grŵp i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant heb ei gwblhau drwy wylio'r recordiadau. Er ei fod yn cydnabod bod hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol yn cael ei ddarparu i Gynghorwyr, awgrymodd efallai y dylid ystyried mwy o hyfforddiant neu hyfforddiant uwch.

- Côd Ymddygiad

Dywedodd y Cynghorydd Jones fod perthynas waith dda gyda'r holl Arweinwyr Grŵp a'r holl Gynghorwyr eraill ac nid oedd unrhyw faterion côd ymddygiad ar hyn o bryd. Pe byddai unrhyw beth yn codi byddai'n eu codi gyda'r unigolion perthnasol ar unwaith.

Er mwyn cynnal safonau uchel roedd yn cyfarfod â'i grŵp yn rheolaidd.  Mae'n aelod o'r Pwyllgor Disgyblu a Seneddol o fewn ei grŵp a hysbysir darpar ymgeiswyr o'r ymddygiadau disgwyliedig wrth wneud cais am rôl Cynghorydd.

<u>Y Cynghorydd Peter May</u>

Adroddodd y Cynghorydd May fod ei grŵp wedi dyblu o 2 i 4 aelod yn yr etholiad Llywodraeth Leol diwethaf a oedd yn caniatáu i'w aelodau gymryd rhan mewn mwy o Bwyllgorau gan fod ei gymesuredd wedi cynyddu o ganlyniad.

- Hyfforddiant

Awgrymodd y Cynghorydd May y gallai sesiynau hyfforddiant fod yn fwy deniadol a rhyngweithiol o ran y ffordd y cânt eu cyflwyno gan fod mwyafrif y sesiynau'n cael eu cyflwyno drwy gyflwyniad Powerpoint. Roedd hyn yn ailadroddus iawn ac nid yn gyffrous o gwbl.

- Côd Ymddygiad

Dywedodd y Cynghorydd May nad oedd unrhyw faterion côd ymddygiad wedi'u hadrodd ac nad oedd wedi gorfod defnyddio'r Broses Datrys Anghydfodau Mewnol, fodd bynnag fe sicrhaodd ei fod bob amser yn gwrtais i eraill.  Byddai'n sicrhau ei fod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau pellach i ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r ddyletswydd ar Arweinwyr Grwpiau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau Gynghorydd am ddod i gyfarfod y Pwyllgor i roi adborth pellach.

**48 Cynlluniau Hyfforddi Cynghorau Cymuned a Thref.**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried sut i adolygu cynlluniau hyfforddi Cynghorau Cymuned a Thref a sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei gynnal mewn Cynghorau Cymuned a Thref yn Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad;
2) Bydd y Pwyllgor Safonau yn ailymweld â'r eitem hon ymhen 6 mis.

**49 Rhoddion a Lletygarwch.**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried cysoni trothwyon rhoddion a lletygarwch er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cymru.

**Penderfynwyd** bod y Pwyllgor Safonau yn cefnogi’r cynnig y dylai Awdurdodau Lleol yng Nghymru gysoni eu trothwyon ar gyfer cofrestru rhoddion a lletygarwch yn wirfoddol er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

**50 Torri Cod Ymddygiad - Cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.  (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad "er gwybodaeth" i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Safonau am benderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â honiadau bod Cynghorwyr Awdurdodau Lleol a Chynghorwyr Cymuned/Tref wedi torri'r Côd Ymddygiad.

**51 Cynllun Gwaith 2022-2023.**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro gynllun gwaith 2022-2023.

**Penderfynwyd:**

1) dylid nodi'r cynllun gwaith;
2) dylid cynnwys yr eitemau sy'n weddill yn y Cynllun Gwaith ar gyfer 2023-2024.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.21 pm

**Cadeirydd**